ROWLANDS, DAVID ('Dewi Môn'; 1836 - 1907), gweinidog Annibynnol a phrifathro

Enw: David Rowlands
Ffugenw: Dewi Môn
Dyddiad geni: 1836
Dyddiad marw: 1907
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol a phrifathro
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd 4 Mawrth 1836 yn Gwenfron, Rhosybol, ger Amlwch, sir Fôn, o deulu blaenllaw a dylanwadol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cafodd addysg orau ysgolion y cylch. Prentisiwyd ef mewn masnachty yng Nghaergybi. Dechreuodd bregethu gyda'r Annibynwyr yn y Tabernacl, Caergybi, yn 16 oed. Bu yng Ngholeg Annibynnol y Bala, 1853-6, ac yn New College, Llundain, 1856-7; yna'n athro cynorthwyol yng Ngholeg y Bala, 1857-8, a myfyriwr yng Ngholeg Aberhonddu, 1858-61; graddiodd yn B.A. (Llundain) ar ddiwedd ei dymor. Bu'n weinidog yr Hen Gapel, Llanbrynmair, 1861-6, eglwys yr Annibynwyr Saesneg, Trallwng, 1866-70, ac eglwys yr Annibynwyr Saesneg, Caerfyrddin, 1870-2. Daeth yn athro mewn gwahanol adrannau yng Ngholeg Aberhonddu, 1872-97, ac yn brifathro'r coleg o 1897 hyd ei farwolaeth 7 Ionawr 1907. Bu'n bleidiwr eiddgar i fudiadau a sefydliadau gwladol, cymdeithasol, cenedlaethol, a chrefyddol ar hyd ei oes lafurus. Yn ystod ei dymor fel athro cynorthwyol yn y Bala, areithiodd, dadleuodd, ac ysgrifennodd lawer dros fudiad y Wladfa; beirniadodd yn aml yn yr eisteddfod genedlaethol; bu'n aelod o bwyllgor addysg sir Frycheiniog am flynyddoedd, ac yn gefnogydd selog i Brifysgol Cymru; efe oedd cadeirydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1902. Yr oedd ei waith llenyddol yn amrywiol; bu'n cydolygu 'r *Dysgedydd* am gyfnod; cydgyhoeddodd gyfrol o bregethau gyda'r Parch. D. E. Jenkins, Lerpwl; cyfieithodd ' Alcestis ' Euripides; golygodd *Telyn Tudno*, 1897; a chyhoeddodd ramadeg Cymraeg, 1897. Yr oedd yn bersonoliaeth urddasol, yn fonheddwr wrth natur, ac yn fawr ei ddylanwad ar ei fyfyrwyr. Y mae swyn ei gymeriad a chrefyddolder ei ysbryd i'w teimlo yn ei emynau tyner a gyhoeddwyd yn *Y Caniedydd Cynulleidfaol*.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

Dyddiadur yr Annibynwyr, 1908

The Congregational Year Book, 1908

Who's who?, 1903

Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880 (1898)

Y Tyst, Ionawr 1907

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Rowlands (Dewi Môn)

Gweithiau

David Rowlands, *Grammadeg Cymraeg* (Wrexham 1877)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 92831350

Wikidata: Q13127816

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu